
Royal College of Anaesthetists

# MAE DENNIS YN CAEL ANESTHETIG!


Association of Paediatric Anaesthetists of Great Britain and Ireland




# DENNIS & GNASHER

## "TA-TA TONSILIAU!"


ANTUR FER Y BEANO





**Geiriau:** I.P. Daley **Lluniau:** Nigel Parkinson




Am ragor o wybodaeth ac adnoddau, ewch i www.rcoa.ac.uk/childrensinfo



YN DDIWEDDARACH, AR ÔL I DENNIS GAEL ATEBION I'W HOLL GWESTIYNAU, MAE'N AMSER MYND I'R GWELY...
Oes gen ti bopeth Dennis?
Oes, dw i'n meddwl... Fy Nontendo Itch, clustffonau, ffôn yn llawn ffilmiau, sliperi, brwsh dannedd, a comic i ddarllen...
Rydw i wedi cael pyjamas arbennig i ti. Na' i eu rhoi nhw fan hyn...
Na, Mam paid...
Ha-ha! Chei di ddim mynd â Gnasher i'r ysbyty, Dennis!
Ydyn ni yno eto?
Iawn! Fe gymera i fy nhedi Gnasher yn lle!
YN Y BORE...
Cofia na chei di ddim bwyta bore 'ma Dennis. Ond, fe gei di yfed ychydig o ddŵr.
Os dw i ddim yn cael bwyta am chwe awr cyn fy llawdriniaeth, fydda i'n *llwgu* pan fyddai'n deffro!
Wel, rydyn ni'n gallu pacio llawer o fyrbrydau ar gyfer pan ti'n deffro, iawn?
Tria ychydig o ysgewyll hud! Blasus!
Brysia Dennis. Mae'n rhaid i ni fynd.
Hwyl am y tro, 'ngwas i. Caru ti!
Caru ti hefyd, Dad.
Hwyl am y tro, Gnasher!
Cofia ddod â sosej neu ddwy i mi o'r ysbyty...
AR Y WARD PLANT...
Helo Dennis! Alina ydw i. Rydw i'n nyrs yma. Fe ddes di o hyd i'r ward plant heb unrhyw broblem, felly?
Do, Nyrs Fe roddodd Andy gyfarwyddiadau i ni.
NIGEL PARKINSON
A chi, Mam? Cofiwch, rydyn ni i gyd yma i edrych ar ôl y ddau ohonoch chi. Y peth gorau y gallwch chi'i wneud i Dennis, yw ymlacio. Meddyliwch – dim triciau am ychydig o oriau!
Dw i'n iawn diolch.
MAE NYRS ALINA YN RHOI BAND ADNABOD I DENNIS EI WISGO AR EI ARDDWRN AC YN MESUR EI DYMHEREDD, CYFLYMDER CURIAD EI GALON, EI BWYSAU GWAED A'I LEFELAU OCSIGEN...
Mae'r rhain i gyd yn iawn. Pryd oedd y tro diwethaf i ti fwyta unrhyw beth?
Fe ges i dost gyda jam mefus cyn mynd i'r gwely. Blasus!
Helo, Dennis, Doctor Osuji ydw i. Fi yw dy anesthetydd di ac fe fydda i'n edrych ar dy ôl di heddiw.
Chi sy'n gorfod gwneud i mi gysgu, ie? Wel, dw i ddim yn mynd i gysgu i unrhywoedolyn! Gofynnwch i fy mam!
Mae gen i waith caled o 'mlaen felly, oes? Wel, mae gen i ddau ddull y gallwn ni roi cynnig arnyn nhw...
Gallwn ni defnyddio caniwla i roi'r feddyginiaeth cysgu i ti. Mae caniwla yn diwb plastig bychan rydyn ni'n roi yng nghefn dy law. Rydyn ni'n defnyddio eli fferru arbennig ar dy law cyn gwneud hynny, felly fe wnei deimlo tapio ond ddylai o ddim brifo.
Neu, gallwn ni ddefnyddio masg wyneb sy'n cael ei lenwi â nwy arbennig. Y naill ffordd neu'r llall, fe fydda i yno i dy wneud ti'n gysglyd ac i wneud yn siŵr dy fod ti'n ddiogel ac yn cysgu'n drwm pob cam o'r ffordd.
Rydw i'n credu mai'r caniwla yw'r dewis gorau i ti, Dennis. Ydy hynny'n iawn?
Iawn, *Cant y Can'-iwla*!
Gwych! Fe wela i di ymhen ychydig, felly. Nyrs Alina, mae'n bryd cael yr eli fferru arbennig.
Dyna ti. Nawr 'te mae yna ychydig o blant iau fydd yn mynd i mewn o dy flaen di, felly mae gen ti awr neu ddwy i aros. Fe ddo' i ag ychydig o sgwash i ti, gan dy fod ti'n gallu cael diod hyd at awr cyn y llawdriniaeth.
BLOB!
Mae gen i amser i gael gêm gyflym o *Fortnite* felly! Dw i wedi lawrlwytho'r diweddariad diweddaraf yn barod!
YN DDIWEDDARACH, MAE TRO DENNIS I GAEL LLAWDRINIAETH WEDI CYRRAEDD...
Felly, dyma'r ystafell anesthetig lle fyddi di'n mynd i gysgu.
Cŵl.



YN YR YSTAFELL ANESTHETIG...
Rydyn ni wedi gwirio popeth, Dennis. Mae'n bryd i ni ddechrau'r anesthetig a dy wneud ti'n gysglyd. Wyt ti'n barod?
Ystafell Lawdriniaeth
Dw i wedi dweud wrthych chi o'r blaen. Does dim oedolyn byw sy'n gallu gwneud *i mi* fynd i gysgu.
Ha-ha! Pam na wnei di adael i mi wybod beth rwyt ti'n deimlo a gawn ni weld sut fydd pethau'n mynd.
Dyma ni...
Sut ydw i'n teimlo..?
Byddai popeth yn iawn petai'r 'stafell yn stopio troelli fel pelen disco...
...a phetai yna ddim blas rhyfedd...
...dylyfiad gên...
...ac...www! babi draenog... pinnau bach meddal yn... fy mraich...
Wel wir! Mae'n cysgu'n drwm yn barod!
Wela i di wedyn, Dennis.
Dw i ddim yn cael rhoi cusan i ti'n aml yn ddiweddar.
WRTH GWRS, NID YW DENNIS YN CLYWED MAM YN SIARAD NAC YN TEIMLO EI CHUSAN AR EI FOCH...
... NID YW CHWAITH YN TEIMLO CAEL EI GLUDO AR DROLI I'R YSTAFELL LAWDRINIAETH DRWS NESAF I GAEL EI LAWDRINIAETH...
A DWEUD Y GWIR, NID YW'N GWELD, CLYWED NAC YN TEIMLO DIM...
NES...
YN YR YSTAFELL ADFER...
*Beth?* Ble ydw i? Pryd fydda i'n mynd i gysgu?
Mae'r cyfan drosodd. Mae dy donsiliau di allan! Edrych, maen nhw gen i fan hyn!
Ych a fi! *Afiach!*
*Jôc!* Dim ond melysion meddal ydyn nhw!
Doniol iawn!
Mae gen i ddolur gwddf.
Mae Mam yn hoffi triciau hefyd – Y Golygydd
Bydd y feddyginiaeth yma'n helpu gyda dy ddolur gwddf. Y peth da yw na fydd y dolur gwddf yma'n para'n hir a fyddi di byth yn cael tonsilitis eto! Roedd y llawdriniaeth yn llwyddiannus iawn ac fe gei di fynd adref yn fuan!
RHAI ORIAU WEDYN...
Wel Dennis, rwyt ti'n gwneud yn dda, rwyt ti wedi bwyta rhywbeth ac rwyt ti wedi bod i'r tŷ bach. Fe gei di fynd adref nawr!
Barod Dennis? Mae Dad yn aros amdanon ni yn y car.
Gwych! Hwyl, pawb! Diolch!
Clustiau
Trwyn
Gwddf
Diolch, Nyrs Alina!
Hwyl fawr, Dennis!
NÔL GARTREF...
Roedd dy ffrindiau i gyd eisiau dod draw i dy weld di, Dennis, ond efallai fyddi di eisiau gorffwys am ychydig ddyddiau nes dy fod ti'n well.
*O na!* Roeddwn i eisiau dweud popeth wrthyn nhw am yr ysbyty!
Dw i'n dal i aros am fy sosej ysbyty...
Wnes ti ddim gadael i mi orffen – maen nhw tu allan yn yr ardd, ac wedi dod â hufen iâ i ti!
Helo pawb! Mae'n *loli* eich gweld chi!
DIWEDD... DOLUR GWDDF DENNIS O LEIAF!


# BETH SY'N WAHANOL?

Wyt ti'n gallu dod o hyd i ddeg gwahaniaeth rhwng y lluniau hyn o'r Ystafell Anesthetig?
Mae'r atebion isod!












1. Mae'r meddyg yn gwisgo menig melyn!
2. Mae'r meddyg wedi tyfu barf!
3. Does dim handlenni ar ddrysau'r Ystafell Lawdriniaeth!
4. Mae Bananaman ar y sgrin!
5. Mae rhywun wedi cael neges e-bost!
6. Mae'r peiriant wedi colli deial.
7. Mae pyjamas Dennis yn wyrdd a du nawr!
8. Mae rhai o'r bylbiau ar goll o'r golau!
9. Mae'r peiriant yn gwenu!
10. Mae botymau ychwanegol ar ben y peiriant!

# CHWILAIR Y WARD!




Wyt ti'n gallu dod o hyd i'r geiriau hyn yn y grid?
Mae'r ateb ar y gwaelod!

ANESTHETIG CANIWLA MASG
WARD NYRS LLAWDRINIAETH
YSBYTY TONSILIAU ELI HUD
MEDDYG ASESIAD HUFEN IÂ

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| T | O | N | S | I | L | I | A | U | B | A | E | L |
| C | M | A | S | G | P | O | N | B | L | C | L | I |
| W | M | A | S | E | S | I | A | D | S | S | I | I |
| A | N | E | S | T | H | E | T | I | G | S | H | U |
| R | Y | C | C | A | N | I | W | L | A | W | U | H |
| D | R | D | H | H | U | F | E | N | I | Â | D | M |
| C | S | D | U | M | E | D | D | Y | G | T | S | M |
| U | I | N | C | D | Y | S | B | Y | T | Y | M | S |
| L | I | O | Â | D | R | I | B | I | A | E | S | H |
| I | J | O | P | Â | R | A | T | I | O | N | B | B |
| C | H | G | L | U | Â | W | I | M | C | B | U | U |
| L | L | A | W | D | R | I | N | I | A | E | T | H |





Rydym yn ddiolchgar i blant **18fed Grŵp Sgowtiaid Gainsborough** (Cybiau) ac **Ysgol Uwchradd Efrog**, ac i **Alison Guiton** (Gweithiwr Ieuenctid Ymgysylltu a Chyfranogiad y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant) am eu cymorth wrth gynhyrchu'r adnodd hwn.

Rydym yn croesawu adborth ar ein hadnoddau. Cwblhewch yr arolwg byr hwn, os gwelwch yn dda: **https://www.surveymonkey.co.uk/r/testpaediatr** neu anfonwch e-bost atom yn: **patientinformation@rcoa.ac.uk**

Royal College of Anaesthetists

Association of Paediatric Anaesthetists of Great Britain and Ireland

© 2022 Royal College of Anaesthetists (Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion)
a'r Association of Paediatric Anaesthetists of Great Britain and Ireland (Cymdeithas Anesthetyddion Pediatreg Prydain Fawr ac Iwerddon)
Cedwir Pob Hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Royal College of Anaesthetists (Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion)
a'r Association of Paediatric Anaesthetists of Great Britain and Ireland (Cymdeithas Anesthetyddion Pediatreg Prydain Fawr ac Iwerddon).

BEANO

BEANO.COM

Cynnyrch Beano Studios © DC Thomson Ltd 2022.